

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
Medi 7fed 2020**

Preseanol: Tyly Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies, Eleri Jones, Emyr Jones, Gwyn Roberts, W D Williams

Hefyd yn bresennol: Cyngorydd Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i Ganolfan Henblas - lleoliad gwahanol i'r arfer ond un oedd yn cyd-fynd gyda rheolau Covid 19. Dywedodd ei bod yn falch o allu cyfarfod wyneb yn wyneb. A gweld pawb yn iach ac yn dygymod gyda'r amseroedd pryderus hyn.

Llongyfarchwyd y Cadeirydd ar ei swydd newydd o reolwr Fferyllfa Dolgellau.

Derbyniwyd ymddiheuriad Geraint Roberts.

2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mehefin 22, 2020.
5. **Materion yn codi:** Yn ystod y cyfnod ers y cyfarfod diwethaf, cafwyd gohebiaeth parthed gwersylla slei bach ar lannau Llyn Tegid. Roedd y Cyngorwyr yn rhannu'r pryderon fod glannau'r llyn yn faes gwersylla ansyddogol. Cytunwyd gyda'r dymuniad i gael cyfarfod gyda **Swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri** i drafod y camau sydd angen eu cymryd i atal hyn rhag ddigwydd eto. Hoffai'r Cyngorwyr dderbyn gwybodaeth beth yn union yw rheolau'r Parc am wersylla fel hyn, a pha gamau maent yn eu cymryd i'w atal.

6. Y Fynwent:

- a. Mae'r gwair wedi ei dorri 2 waith yn barod a diolchwyd am y gwaith cymen.
 - b. Mae'r Llyfr Claddu bellach yn gyfredol a diolchwyd i'r Clerc am gofnodi blynyddoedd lawer o waith.
 - c. Mae nifer o gopïau o gynllun manwl o Fynwent Eglwys Santes Cywair wedi eu gwneud, sy'n cyd-fynd a'r cofnod o Arysgrifau Cerrig Coffa a gasglwyd gan Gymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd yn 2005. Diolchwyd i **Emyr Puw** am gyflawni'r gwaith hwn a chytunwyd i gydnabod ei waith. Cytunwyd fod hwn yn gofnod pwysig o'r fynwent ac yn ddogfen allweddol sy'n arwyddo gofal y Cyngor o'r Fynwent.
 - d. Ystyriwyd cyflwr gwael rhai beddau a chytunwyd i ofyn i Chris Ellis wneud y gwaith angenrheidiol o dorri masarnen a thocio gordyfiant eiddew.
7. **Materion ariannol:** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol. Daeth ail ran y Praesept i law, sef £2000.

8. **Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Cyngorydd Gwynedd, Alan Jones Evans, a ddywedodd ei fod wedi tynnu sylw Adran y Priffyrdd at anwastadrwydd y ffordd ar Riw Ceri sy'n beryglus i

feicwyr. Cafodd sicrwydd fod y mater ar y Rhaglen Waith. Mae'r gwaith wedi cychwyn ar y grid gwartheg yng Nghefnddwygraig. Mae trwsio Pont Rhiwaedog yn parhau ar y Rhaglen ac mae'r ffordd wrth Bont Ceunant wedi ei tharmacio'n dda iawn yn ystod oriau'r nos.

Dywedodd fod y misoedd diwethaf wedi dangos pa mor hanfodol ydyw cael wi-fi effeithiol yng nghefn gwlad. Eglurodd y gwaith sydd yn digwydd ar yr A494 wrth Lanycil, ac ategodd na fyddai'r ffordd yn cael ei chau oni bai ei bod yn argyfwng. I'r perwyl hwnnw mae'r Clerc ac ef wedi gofyn i Gyngor Gwynedd wella rhywfaint ar ffordd Llangywer. Nodwyd fod angen arwyddion am terfyn pwysau ar bont Llangywer ar ddau ben y ffordd yn Llanuwchllyn ac yn Y Bala; efallai bod terfyn pwysau ar bont yr afon Twrch yn Llanuwchllyn yn ogystal ag ar bont y lein wrth y Fach Ddeiliog. Soniwyd hefyd am y wal sydd yn bolio wrth Fryntirion. Mae angen rhoi sylw arbennig i uchder y coed pe bai angen i gerbydau deithio ar y ffordd hon; hefyd mae llawer o eiddew ar nifer o'r coed ac mae angen sylw i'r rhain. Mae angen gwneud peth gwaith ar y cloddiau er mwyn cael cymaint o led i'r ffordd a phosib.

Diolchwyd i Alan Jones Evans am ei waith.

9. **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:** Cytunodd Alan Jones Evans i ddwyn sylw Adran y Priffyrdd at yr angen i docio nol ar y darn a adweinir fel Y Trip yn Rhosygwaliau. Dywedodd y byddai'n gofyn am ail-raglenni lleoliad y camerâu cyfyngder i gynnwys Llangywer.

Cytunodd y Cyngorwyr i dynnu llun neu anfon gwybodaeth am gynnwys y biniau halen yn eu hymyl.

Cytunwyd i brofi'r offer cynnal bywyd yn y ciosg yn Rhosygwaliau ac yn Llangywer.

10. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a ddywedodd fod y gwaith o uwchraddio adeilad Canolfan Henblas bellach wedi ei orffen. Ymwelwyd a'r llawr uchaf lle mae nifer o swyddfeydd newydd ar gael. Lleolir hwb wi-fi am ddim tref Y Bala yng Nghanolfan Henblas yn awr.

11. **Gohebiaeth:**

i. **Parc Cenedlaethol Eryri:** Ystyried

- a. **NP5/70/LB107B + C:** Dymchwel allandy presennol ac adeiladu iyrty yn ei le gyda ffens bren o'i amgylch _ caniatâd i ddymchwel Adeilad Rhestredig o fewn cwrtill Adeilad Rhestredig Tŷ'n y Wern, Rhosygwaliau – CYMERADWYWYD O FEWN CANLLAWIAU'R PARC A CADW
- b. **NP5/70/ LB107C:** Annedd menter wledig (gan gynnwys system trin carthffosiaeth) Llechwedd Ystrad, Llanuwchllyn - CYMERADWYWYD, GAN OFYN AM GYNNWYS AMOD NA FYDD YN CAEL EI OSOD FEL LLETY GWYLIAU
- c. **Ymgynghoriad ar Amcanion Gwella a Llesiant (e-bost).** Cytunodd y Clerc i ymateb i hwn ar ran y Cyngor.

ii. **Cyngor Gwynedd:** Rhannwyd Bwletinaw Covid (e-bost)

iii. **Un llais Cymru:**

- a. Derbyniwyd gwybodaeth am Raglen Hyfforddiant (e-bost)
- b. Derbyniwyd esiamplau o Arfer Gorau Ymgysylltiad Cymunedol (e-bost)
- iv. **Age Cymru:** Rhannwyd yr holiadur “Dywedwch eich stori” (e-bost)
- v. **Cyngor Cymuned Llanllyfni** – Trafodwyd y cais am gefnogaeth i’w cynnig i ofyn i Gyngor Gwynedd drefnu cyfarfod i drafod codi tâl ar gerddwyr yr Wyddfa. Cytunwyd i gefnogi’r cais, ond i ychwanegu hefyd yr angen i reoli mynediad at y ddwy Aran, at Gadair Idris ac at Lyn Tegid, gan eithrio pobl Gwynedd rhag dalu.
- vi. **Cyfoeth Naturiol Cymru** – derbyniwyd gwybodaeth am lansiad ar-lein 18/9/20 am 11.00 y bore (e-bost)
- vii. **Cyfoeth Naturiol Cymru** – Ymgynghoriad ar reolaeth coedwigoedd (e-bost) – gofynnwyd i’r Clerc ymateb ar ran y Cyngor, gan gynnwys fod Coedwigaeth yn ffynhonnell waith pwysig; mae angen cynnal hawliau tramwy. Parchu enwau lleol a hybu cynefin y wiwer goch.
- viii. **Bwrdd Dŵr Cymru** – derbyniwyd gwybodaeth am adnewyddu Capel Coffa Celyn (e-bost)

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Tachwedd 9fed, 2020; lleoliad yn dibynnu ar amgylchiadau Covid 19. Cytunwyd i gynnal y Cyfarfod Blyneddol yr un pryd.